

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 14 Mehefin 2018

Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm

Yn Bresennol: Aelodau:

Mark Hadley (MH)
Karen Burch (KB)
Jillie Gardiner (JG)
Geoff Williams (GW)
Paul Barrett (PB)
Michael Jones (MJ)
Richard Leggett (RL) - hwyr yn cyrraedd fel y nodwyd
Dai Stacey (DS) - hwyr yn cyrraedd fel y nodwyd
Jane Evans (JE) - hwyr yn cyrraedd fel y nodwyd

Ysgrifennydd (dros dro)

Caroline Ferguson (CF) (Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad CSC - Dros Dro)

Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd

Jason Lawday – Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad CSC
Rob Williams – Trail Riders Fellowship (TRF)
Mo Rapley - TRF

Ymddiheuriadau: Caroline Evans (CE)

Glyn Evans (GE)
Gerald Brown (GB)
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths
Y Cynghorydd Allan Haskins
Glyn Jones (CNC)

*Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin

EITEM	CAMAU GWEITHREDU
Eitem 1 - Croeso a Chyflwyniad Croesawodd CF bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y broses ethol o ran penodi Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol ac Is-gadeirydd ar gyfer Fforwm newydd Sir Gaerfyrddin.	
Eitem 2 – Ymgeiswyr ar gyfer Cadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol MH oedd yr unig aelod i sefyll i fod yn Gadeirydd	

<p>Eitem 3 –Ethol Cadeirydd</p> <p>Cynigiodd GW MH Eiliodd JG MH</p> <p>Penodwyd MH fel Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin</p>	
<p>Eitem 4 – Ymgeiswyr ar gyfer Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>KB oedd yr unig aelod i sefyll i fod yn Is-gadeirydd.</p>	
<p>Eitem 5 - Ethol Is-gadeirydd</p> <p>Cynigiodd JG KB Eiliodd MH KB</p> <p>Penodwyd KB fel Is-gadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin.</p>	
<p>Eitem 6 Ymddiheuriadau</p> <p>Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.</p>	
<p>Eitem 7 - Ystyried a Chymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf</p> <p>Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cytuno heb unrhyw newidiadau.</p> <p>Bydd CF yn anfon y cofnodion i'w cyfieithu ac yn eu cyhoeddi ar y wefan.</p>	
<p>Eitem 8 - Materion sy'n codi o'r cofnodion na roddwyd ar yr agenda fel arall</p> <p>Llwybrau Beicio Mynydd Brechfa</p> <p>MH – Darparodd CNC ystadegau ynghylch defnydd a gwybodaeth ynghylch gwariant blynyddol.</p> <p>JG – ble mae £40,000 yn cael ei wario?</p> <p>GW – os nad yw llwybrau'n cael eu cynnal a'u cadw a bod rhywbeth yn digwydd, a fydd CNC yn atebol? A ellir ei siwio?</p> <p>MH – mae llwybrau'n cael eu defnyddio ar eich menter eich hun.</p> <p>GW – a oes arwyddion ar gael i wneud hynny'n glir i ddefnyddwyr?</p> <p>MH – cwestiynau ar gyfer Glyn yng nghyfarfod nesaf y Fforwm.</p>	

Eitem 9 - Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol

Mynychodd MH, cyfle defnyddiol i rwydweithio.

- Trafodwyd darpariaeth ystadegau CSC. Roedd Fforymau Mynediad Lleol eraill yn teimlo bod Sir Gaerfyrddin yn lwcus i dderbyn y rhain - nid yw'r un wybodaeth ar gael i unrhyw Awdurdodau eraill.
- Mae parhad y Fforwm Mynediad Lleol presennol rhwng diwedd y tymor ac ethol Fforwm Mynediad Lleol newydd yn iawn, mae eraill yn gwneud hyn hefyd.
- Nid oedd cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn bresennol a chytunwyd bod hyn yn siomedig. Dim yn dod allan o Bapur Gwyrdd eto.
- Mae Fforymau Mynediad Lleol yn cael eu hannog i edrych ar Glastir ar-lein. A chysylltir â Fforymau Mynediad Lleol mewn perthynas â Chynlluniau Creu Coetiroedd Glastir? Nid yn achos Sir Gaerfyrddin.
- Tynnwyd sylw at bresenoldeb CNC yng nghyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol.

Tynnodd JE sylw at y grŵp CNC y mae hi'n (cynrychiolydd Cymdeithas Ceffylau Prydain) aelod ohono er mwyn trafod problemau o ran mynediad yn uniongyrchol â staff CNC. Mae cynrychiolwyr eraill hefyd yn mynychu.

Gofynnodd MH os allai Jane gael rhagor o wybodaeth ynghylch enw'r grŵp ac unrhyw wybodaeth arall o ran trefniadaeth y grŵp.

RL – a ddylai Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru adolygu'r mater yn ymwneud â Dangosydd Perfformiad? Mae Dangosyddion Perfformiad yn rhoi mesur yn genedlaethol sy'n ddefnyddiol dros ben.

MH – byddai hwn yn fater i'r gweinidog perthnasol ei ystyried.

GW – Gall Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin gefnogi CSC gan ddefnyddio data'r System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad a ddarparwyd.

MH – Awgrymodd John Morgan y dylai templed ariannu yr Awdurdod Lleol gael ei ddsbarthu erbyn cyfarfod nesaf y Cadeiryddion.

Cyfarfod nesaf 19/07/18, 10.30 tan 3 – nid yw MH yn gallu mynychu, cynigodd GW fynychu ar ran Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin, cytunodd MH.

Eitem 9 - Tîm Cyfreithiol Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

CF - Swyddi Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad, Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad a Chynorthwydd Chwiliadau Cefn Gwlad i gyd wedi'u llenwi.

MH – Ai dyna'r swyddi i gyd?

CF – Swydd Rheolwr yn dal i fod mewn gwirionedd yn wag, CF yn ymgymryd â dyletswyddau uwch o'i swydd fel Swyddog.

RL – nid yw'n foddhaol nad yw'r holl swyddi wedi'u llenwi.

MH a KB – Mae dyfalbarhad y Fforwm Mynediad Lleol wedi helpu o ran y broses recriwtio bresennol, canlyniad cadarnhaol.

Eitem 10 - Adroddiad ar Faterion yn ymwneud â'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus

MH – Ffigurau cynnal a chadw'n newyddion da. Materion cyfreithiol yn dal yn cynyddu'n gyflymach nag y maent yn cael eu datrys - pryder.

CF – mae'r ffaith na chafodd y sefyllfa staffio a'r broses recriwtio tra oedd CF ar gyfnod mamolaeth ei chwblhau wedi arwain at gynnydd mawr o ran materion cyfreithiol a gofnodwyd sy'n parhau i fod heb eu datrys. Yn ogystal, nid yw'r ystadegau yn cyfrif am waith gwneud Gorchmynion sy'n cymryd amser ac yn lleihau amser sydd ar gael i ddelio â phroblemau.

JL – Gorchmynion Cyfreithiol yn cymryd amser.

CF – bydd yn gofyn bod yr ystadegau o ran Gorchmynion yn cael eu hychwanegu at bob adroddiad ynghylch problemau i ddarparu llun mwy cyflawn o'r gwaith a gyflawnwyd gan y tîm cyfreithiol. Dylai ffigurau wella wrth i'r sefyllfa staffio wella yn y tîm.

PB – Mae Cerddwyr wedi cynnig gwirfoddolwyr i weithio ar y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus am ddim. Ym Mhowys, mae gwirfoddolwyr yn cael arian ar gyfer Offer Diogelu Personol.

GW – gallai hyn gael ei ystyried yn achos o gamwario arian cyhoeddus.

JL – Mae Offer Diogelu Personol yn bwysig felly nid yw'n ymddangos yn afresymol.

CF – mae gwirfoddolwyr yn drafodaeth barhaus â'r Uned Cynnal a Chadw, mae peth gwaith yn cael ei wneud ar lawr gwlad.

KB – gofynnwyd am adroddiad System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad ynghylch Llwybrau Ceffylau sydd ar agor yn y Sir.

CF – mae Lucy'n ymgymryd â'r darn hwnnw o waith ar hyn o bryd.

CF

Eitem 11 - Ansawdd y rhwydwaith cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig

MH – dangoswyd canlyniad proses a ddechreuodd yng nghyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd, ar hyn o bryd yn ymarfer papur i ganfod lleoliad cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a llwybrau eraill â mynediad i'r cyhoedd yn Sir Gaerfyrddin a p'un ai ydynt ar y Rhestr Strydoedd.

Bellach mae angen i is-bwyllgor y Fforwm Mynediad Lleol fynd â'r broses yn ei blaen ac ychwanegu gwybodaeth ynghylch cyflwr i'r cofnodion presennol.

RL – ydy hyn ar gyfer Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd?

KB – mwy ar gyfer grwpiau defnyddwyr

MH - llwybrau o ddiddordeb i bawb

JL – Adolygiad o'r Rhwydwaith yn cael ei gynnal, sy'n cynnwys yr holl lwybrau, nodi anghysonderau.

<p>KB – beth sy'n digwydd i anghysonderau?</p> <p>JL – os oes problem o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus, caiff y mater ei nodi ar System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad.</p> <p>JG – sut y mae'r cyhoedd yn gwybod os oes problem?</p> <p>JL – nid oes gan CSC ddim mewn lle ar hyn o bryd, gellir rhoi gwybod i Arolwg Ordnans os oes gwallau yn eu mapiau.</p> <p>RL – awgrymu bod cyfarfod yn cael ei drefnu i fynd drwy'r holl gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a'r llwybrau eraill sydd â mynediad cyhoeddus. Dylid pennu amcanion y cyfarfod ymlaen llaw.</p> <p>MH – Cwrdd yn yr Hydref</p>	
<p>Eitem 12 - Diweddariad ynghylch y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy</p> <p>CF – heb gwblhau fel y bwriadwyd. Ni chafodd y Cynllun ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018. Codwyd cwestiynau ynghylch cyflawnrwydd yr ymgynghoriad gan CNC. Gwnaeth Cliff Cleaton (CC) a Martin Dolan (MD) gwrdd â Carys Drew (CD) tra oedd CF dal ar gyfnod mamolaeth. Nododd CD feysydd a oedd yn peri pryder.</p> <p>Gwnaeth CF, CC, MD a Steve Pilliner gwrdd i drafod y cynllun cytunedig er mwyn symud y broses ymlaen gan ystyried y pwyntiau a godwyd gan CD. Rhoddodd CF wybod i CD am y Cynllun. Roedd CD yn hapus â'r camau gweithredu a'r newidiadau arfaethedig.</p> <p>RL – Siaradodd â CD, dywedwyd nad oedd CNC wedi cael golwg ar y ddogfen drafft.</p> <p>CF – Cadarnhaodd MD ei fod wedi ymgynghori â CNC gan ddefnyddio'r mewnlwch 'ymholiadau' - ni chafodd y ddogfen ei chyfeirio at y bobl berthnasol yn CNC. Mae'r mater hwnnw bellach wedi cael ei ddatrys gan CD.</p> <p>MH – a ydy MD wedi cymryd camau gweithredu o ran pryderon y Fforwm Mynediad Lleol ynghylch cynnwys coll o ran Tir Mynediad Agored?</p> <p>CF – ddim yn ymwybodol o ganlyniad y cyfarfod hwnnw gan nad oedd yn bresennol ond byddai'n gwirio hynny. Dogfen ddrafft yw hon ar hyn o bryd a bydd yn destun ymgynghoriad felly gellir ychwanegu manylion/eitemau os oes angen.</p> <p>Ar ôl ei chwblhau, bydd angen i'r ddogfen ddrafft gael ei chymeradwyo gan y Tîm Rheoli Corfforaethol cyn y gall yr ymgynghoriad ddechrau. Mae dal gwaith i'w wneud cyn hynny.</p>	
<p>Eitem 13 – Y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Llwybr Dyffryn Tywi</p> <p>Diweddariad ysgrifenedig wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw.</p> <p>KB – byddai'n hoffi lluniau o'r gwaith hyd yn hyn.</p> <p>MH – dal â chwestiynau am y gyllideb. Dylid gwahodd Sam Palmer (SP) i ddod i gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Mynediad Lleol.</p>	<p>CF</p>

<p>GW – beth yw'r sefyllfa o ran mynediad i geffylau?</p> <p>JE – edrychwyd ar y posibiliadau ond dim llwybrau cysylltu na phwyntiau mynediad addas ar gael.</p> <p>KB – nodwyd bioddiogelwch fel rheswm dros beidio â chaniatáu mynediad i geffylau.</p> <p>MH – cam cadarnhaol bod gwybodaeth bellach yn cael ei darparu.</p> <p>GW – efallai dylid rhoi ystyriaeth i fynediad i'r Tywi (lansio) o'r llwybr (Mynediad i Ddyfrffyrdd).</p> <p>MH – Fforwm Mynediad Lleol i godi'r mater hwn.</p> <p>PB – wedi cofrestru ar wefan CSC am wybodaeth ynghylch Llwybr Dyffryn Tywi - dim gwybodaeth wedi dod i law eto.</p>	
<p>Eitem 14 - Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</p> <p>CF – proses wedi'i chwblhau. Cytundeb newydd mewn lle. Bydd yn destun adolygiad cyson er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol o ran rheoli rhwydwaith Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.</p> <p>Hoffai'r Fforwm Mynediad Lleol weld y Cytundeb nawr ei fod wedi gorffen.</p> <p>CF – bydd yn gofyn os gall aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol gael golwg arno.</p>	<p>CF</p>
<p>Eitem 15 - Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>Mae'r ddogfen yn aros i gael ei chyfieithu.</p>	

<p>Eitem 16 - Diweddariadau o ran Prosiectau</p> <p>a) Fferm Wynt Gorllewin Brechfa - gofynnodd JG am oblygiadau yswiriant mewn perthynas â thyrbinau a thir Mynediad Agored. Pwy sy'n gyfrifol - ai CNC fel perchennog y tir neu berchnogion y tyrbinau? Gofynnodd MH am y map o'r safle a gwnaeth argymhellion a fydd yn ymddangos yn nhafleuni'r dyfodol.</p> <p>b) Darparodd JL y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Morfa Bychan. Dim cynnydd gan fod yr ymgynghoriad yn parhau. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gosod gât rhwystr â chlo.</p>	<p>JL</p>
<p>Eitem 17 – Taflen Twristiaeth - “Diwrnodau Allan”</p> <p>??</p>	
<p>Eitem 18 - Eitemau Agenda ar gyfer y dyfodol</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Creu Coetir Glastir (CNC) 2. Dangos y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (LP) 3. Cyflwyniad ar Lwybr Dyffryn Tywi (SP) 4. Diweddariad o ran Pontydd (MM) 5. Diweddariad o ran Llwybr Arfordir Cymru (MM) <ul style="list-style-type: none"> - Arwyddion Ffyrdd ddim yn gweithio - Gwaith Cynnal a Chadw wrth Ymyl y Ffordd 	
<p>Eitem 19 - Unrhyw Fater Arall</p> <p>Gwnaeth JG gwrdd â Claire Goodman-Jones, a ddywedodd y byddai'n hapus i fynychu cyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol.</p> <p>Mae JG wedi mynychu cyfarfodydd Menter Mynyddoedd Cambrian. Y bwriad yw creu un map cyffredinol sy'n dangos gweithgareddau a manylion darparwyr, gyda map ar un ochr a hysbysebion ar y cefn, yn daladwy gan gyflenwyr. Yn ogystal, bydd tri map ar wahân sy'n cynnwys gwybodaeth am natur, treftadaeth a mynediad.</p> <p>RL – Llwybr Rheilffordd Calon Cymru - yn agor ar 26/06/18. Digwyddiad agoriadol yn Llanymddyfri. Troslun o'r llwybr ar wefan CSC ddim yn gweithio. Angen sylw.</p> <p>MH i roi gwybod i'r Fforwm Mynediad Lleol os nad oes unrhyw gynnydd o ran datrys y mater.</p>	<p>LP</p>
<p>Eitem 20 - Cyfarfodydd Nesaf</p> <p>20 Medi 2018 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin</p> <p>6 Rhagfyr 2018 – Canolfan Tywi Llandeilo.</p>	